

SWYDDOG DATBLYGU / TEITHIAU



RÔL | MANYLION PERSONOL

Mae Earthfall yn chwilio am aelod newydd o staff i i ymuno â'r tîm craidd. I gael mwy o wybodaeth am Earthfall, ewch i'r wefan: www.earthfall.org.uk.

Wrth i Earthfall gychwyn ar ei 25^{ain} blwyddyn o weithgarwch yn 2014/15, mae'r cwmni'n chwilio am Swyddog Datblygu / Teithiau creadigol i ymuno â'r tîm cynhyrchu. Yn 2015, bydd y cwmni'n cynhyrchu gwaith newydd ar raddfa ganolig a fydd yn teithio o amgylch y DG (gan gynnwys tymor yn Llundain), gyda'r posibilrwydd o deithio i Ewrop hefyd.

Mae'r tîm craidd yn cynnwys dau Gyfarwyddwr Artistig, Rheolwr / Cynhyrchydd Cyffredinol, Swyddog Marchnata a Chyfathrebu, Swyddog Datblygu / Teithiau a Swyddog Addysg.

Byddai'r Rôl yn addas ar gyfer person â rhywfaint o brofiad o weithio yn y celfyddydau ac sydd yn dymuno datblygu profiad o reolaeth gyffredinol / cynhyrchu. Mae Earthfall wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol i holl staff y cwmni.

AMLINELLIAD O'R RÔL:

1. Ymchwilio i ffynonellau nawdd amgen ar ran y cwmni, gan gynnwys ffynonellau statudol ac ymddiriedolaethau / sefydliadau
2. Drafftio ceisiadau am gyllid ar ran y cwmni, gan weithio gyda'r tîm craidd
3. Cefnogi'r Rheolwr Cyffredinol i drefnu teithiau ac i gyflawni tasgau Rheolaeth / Cynhyrchu Cyffredinol, gan gynnwys rhai dyletswyddau cyllidebu a rheoli chyllid
4. Darparu cymorth gweinyddol i'r Rheolwr Cyffredinol parthed datblygu partneriaeth gyfalaf
5. Cefnogi'r Rheolwr Cyffredinol i ddatblygu ac ysgrifennu adolygiad o gynllun busnes y cwmni yn flynyddol
6. Mynychu a chynrychioli'r cwmni mewn perfformiadau a digwyddiadau / cyfarfodydd fel ei gilydd
7. Paratoi adroddiadau rheolaidd ar gyfer Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
8. Darparu cefnogaeth i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, gan gynnwys bod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd a chymryd cofnodion.

Mae Earthfall yn gweithredu strwythur rheoli fflat a bydd gofyn i chi ymgymryd â thasgau a chyfrifoldebau rhesymol eraill fel y'u diffinnir gan y Rheolwr Cyffredinol ac i weithio yn rhan o dîm i gefnogi cydweithwyr eraill yn ôl y galw.

ORIAU GWAITH:

Yr oriau gwaith craidd fydd 0930 - 1800 (gan gynnwys awr i ginio) bob dydd. Os byddwch yn gweithio oriau ychwanegol y tu hwnt i'r oriau gwaith arferol, cewch yr amser hwnnw yn ôl, wedi cytundeb gan y ddau barti - cyflogai a chyflogwr. Mae Earthfall yn gwmni sy'n gweithio'n rheolaidd y tu hwnt i oriau gwaith arferol ac fe fydd gofyn i chi weithio oriau hyblyg ar adegau. Diffinnir wythnos waith fel cyfnod o 37 awr yr wythnos. Cynigir 4 wythnos (20 diwrnod) o wyliau bob blwyddyn, ynghyd â gwyliau banc statudol.

DYDDIAD DECHRAU: Chwefror 2015

CYFLOG: £19,200. Telir cyfraddau teithio a chynhaliâth yn unol â Chytundeb EQUITY / ITC

TELERAU AC AMODAU CYFLOGAETH: Yn unol â pholisïau ECQUITY / ITC & Earthfall.

PENCADLYS Y CWMNI: Byddwch yn gweithio yn swyddfeydd y cwmni yn Chapter, Heol y Farchnad, Caerdydd.

Mae'r rôl yn cynnig cyfleoedd i deithio (yn y DG ac yn rhyngwladol). Byddai trwydded yrru lawn Brydeinig yn ddymunol. Rhaid i chi fod yn ddinesydd yr UE, neu wedi cael caniatâd eisoes i weithio yn y DG / UE.

NODWEDDION PERSONOL

	Hanfodol	Dymunol
Addysg hyd at lefel gradd a gradd berthnasol mewn rheoli celfyddydol, neu brofiad proffesiynol cydnabyddedig mewn sefydliad celfyddydol	X	
Profiad o weithio yn rhan o dîm ac ar y cyd ag eraill / meddwl creadigol	X	
Gwybodaeth a dealltwriaeth o gyllidebu a rhagamcaniadau ariannol	X	
Llwyddiant cydnabyddedig wrth ysgrifennu / cyflwyno ceisiadau am arian i gyrff statudol ac ymddiriedolaethau / sefydliadau		X
Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol, gan gynnwys sgiliau negodi	X	
Adnabyddiaeth o sîn gelfyddydol y DG	X	
Profiad o ysgrifennu adroddiadau a chymryd cofnodion		X
Defnyddiwr da / uwch o feddalwedd MS Word ac Excel	X	
Profiad o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol		X
Trwydded yrru Brydeinig lawn		X
Gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg		X
Sgiliau rhwydweithio da		X
Profiad o rwydweithio gyda lleoliadau a chyllidwyr yng Nghymru a gweddill y DG / Ewrop		X
Profiad o ymwneud â rhaglenni corfforaethol		X
Cynllunio a logisteg		X

SUT I WNEUD CAIS

Anfonwch CV llawn a llythyr o eglurhad drwy e-bost yn unig, gan amlinellu eich rhesymau dros fod eisiau gweithio gydag Earthfall, ynghyd â manylion am eich profiad proffesiynol a sut y mae hwnnw'n berthnasol i'r rôl, at: jobs@earthfall.org.uk. Nodwch y geiriau **SWYDDOG DATBLYGU / DEVELOPMENT OFFICER** ym mhennawd yr e-bost, os gwelwch yn dda rhwch. Oherwydd gwyliau'r Nadolig, ni fyddwn yn gallu cydnabod derbyn ceisiadau tan ar ôl y dyddiad cau.

Rhaid i'ch CV a'r llythyr cysylltiedig ein cyrraedd erbyn canol dydd ar ddydd Llun 5 Ionawr 2015. Cynhelir cyfweiliadau yng Nghaerdydd yn ystod wythnos 12 Ionawr, 2015, ac fe ddylech nodi yn eich llythyr o eglurhad a ydych ar gael am gyfweiliad yn ystod yr wythnos honno.

Mae Earthfall yn derbyn nawdd cyhoeddus trwy gyfrwng grant refeniw gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae Earthfall yn aelod o'r Cyngor Theatr Annibynnol a Dance UK ac yn gwmni a dderbyniodd gymeradwyaeth Rheolwr Moesol EQUITY/ITC.